




Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi gwybod i chi beth i'w wneud os ydych o'r farn ein bod ni wedi gwneud penderfyniad anghywir ynghylch eich credydau treth neu'ch cosb.

Ailystyriaeth orfodol

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon gyda phenderfyniad ynghylch credydau treth, gallwch ofyn i ni ei adolygu. Gellir datrys y rhan fwyaf o anghydfodau drwy adolygiad, heb orfod gwneud apêl. Yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, gallwch apelio'n uniongyrchol ar dribiwnlys annibynnol. Os ydych yng Ngogledd Iwerddon, efallai y gallwch apelio'n uniongyrchol (gweler yr adran 'Yr hyn sy'n digwydd nesaf').

 Mae'n gyflym ac yn hawdd i wneud hyn ar-lein - ewch i GOV.UK a chwilio am 'WTC/AP' Os anfonwch

eich ailystyriaeth atom ar-lein, byddwch yn:

- cael cadarnhad ar unwaith ei bod wedi ein cyrraedd a'n bod yn gallu dilyn ei hynt
- gallu atodi ffotograffau neu ffeiliau i ategu'ch cais
- gallu osgoi talu unrhyw gostau postio a byddwch, fel arfer, yn cael ateb yn gynt

Ailystyriaeth orfodol awtomatig

Ers 15 Ionawr 2021, os dyfarnwyd budd-dal anabled i chi a rhoesoch wybod i ni am hyn cyn pen mis o gael gwybod amdano, byddwn yn ailystyried yn awtomatig unrhyw benderfyniadau ynghylch credydau treth ers dyfarnu'r budd-dal.

Pan fyddwn wedi bwrw golwg dros y penderfyniad eto, byddwn yn anfon Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol atoch i egluro'r hyn yr ydym wedi'i benderfynu. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am sut i apelio ar dribiwnlys annibynnol os nad ydych yn fodlon ar ein penderfyniad. Byddwn yn gohirio unrhyw gamau i adennill gordaliad wrth i ni gynnal yr ailystyriaeth, neu wrth i'ch apêl gael ei hystyried.

Pryd y gallwch ofyn i ni ailystyried

Bydd yr hysbysiad o benderfyniad a anfonwyd atoch yn rhoi gwybod i chi a allwch ofyn i ni ailystyried ein penderfyniad.

Gallwch wneud hyn pan fo'r canlynol yn berthnasol:

- rydych o'r farn bod penderfyniad yn anghywir
- nid yw'ch dyfarniad yn ystyried newid yn eich amgylchiadau rydych eisoes wedi rhoi gwybod i ni amdano
- mae'ch dyfarniad wedi ei ostwng neu wedi dod i ben
- nid ydych yn cytuno â hysbysiad o gosb
- mae llog wedi ei godi arnoch

Pwy all ofyn i ni ailystyried

Fel arfer gall y person a wnaeth hawlio, neu'r person sy'n cael y credydau treth, ofyn am ailystyriaeth. Os ydych yn hawlio fel pâr, dim ond un ohonoch sy'n gorfod gofyn.


Gallwch ofyn i ymgynghorydd annibynnol eich helpu. Os ydych yn benodai ac yn hawlio credydau treth ar ran rhywun arall, gallwch ofyn am ailystyriaeth ar ran y person hwnnw.

Sut i ofyn i ni ailystyried

Mae'n rhaid i chi wneud eich cais ar-lein neu ar bapur. Gallwch wneud un o'r canlynol:

 mynd i GOV.UK a chwilio am 'WTC/AP' i wneud y broses ar-lein

- llenwi'r 'Ffurflen ailystyriaeth orfodol' atodedig a'i hanfon atom'
- anfon llythyr atom, gan nodi'r wybodaeth ganlynol
 - eich enw llawn, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, ac ysgrifennwch 'Ailystyriaeth' ar frig y llythyr
 - pa benderfyniad yr ydych am i ni ei ailystyried a pham rydych o'r farn ei fod yn anghywir
 - dyddiad y penderfyniad yr ydych am i ni ei ailystyried


 Cofiwch, mae'n rhaid i chi gynnwys tystiolaeth i ategu'ch cais am ailystyriaeth. Os na wnewch hynny, efallai na fydd ein penderfyniad yn newid.

Dyddiad cau ar gyfer gofyn i ni ailystyried

Fel arfer, mae gennych 30 diwrnod o ddyddiad ein penderfyniad i ofyn i ni ei ailystyried. Os oes gennych reswm da, efallai y gallwn roi rhagor o amser i chi - hyd at 13 mis o ddyddiad ein penderfyniad.


Pryd na allwch ofyn i ni ailystyried

Ni allwch gyflwyno cais am ailystyriaeth er mwyn gwneud newid newydd i'ch amgylchiadau. I roi gwybod i ni am eich newidiadau, ewch i

 go to www.gov.uk/newidiadau-effeithio-credydau-treth

Ni allwch chwaith ofyn i ni ailystyried penderfyniad sy'n gofyn i chi ad-dalu gordaliad.

Os hoffech ddadlau yn erbyn gordaliad, gallwch lenwi ffurflen TC846 ar-lein, 'Gordaliad Credydau Treth'.

 Ewch i GOV.UK a chwilio am TC846, neu ysgrifennwch atom yn Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF, HMRC, BX9 1ST.

Os gwnaethom gamgymeriad, os rhoesom gyngor anghywir i chi, neu os na wnaethom brosesu (cyn pen 30 diwrnod) newid y rhoesoch wybod i ni amdano, gallwch ddadlau yn erbyn ein penderfyniad i adennill eich gordaliad. Bydd yn rhaid i chi wneud hyn cyn pen 3 mis o ddyddiad:

- eich hysbysiad o benderfyniad terfynol
- y penderfyniad ar eich hysbysiad o Adolygiad Blynyddol (os adnewyddir eich dyfarniad yn awtomatig)
- y penderfyniad ar eich hysbysiad o Adolygiad o Ddyfarniad (os daeth eich dyfarniad i ben yn awtomatig o ganlyniad i hawliad am Gredyd Cynhwysol)
- eich Datganiad o Gyfrif
- yr hysbysiad sy'n rhoi ein penderfyniad i chi ynghylch eich ailystyriaeth
- y llythyr oddi wrth y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd neu'r Gwasanaeth Apelio sy'n rhoi eu penderfyniad i chi ynghylch eich apêl

Gallwch ond dadlau yn erbyn ad-dalu gordaliad sy'n digwydd yn y flwyddyn dreth y mae'r hysbysiad neu'r llythyr yn ymwneud â hi. Fel arfer, ni allwch ddadlau yn erbyn gordaliadau o flynyddoedd treth cynharach.

Byddwn dim ond yn derbyn anghydfod hwyr o dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, os oeddech yn yr ysbyty am y cyfnod hwnnw o 3 mis ac nid oedd neb arall yn gallu delio â'ch materion treth. Os byddwch yn penderfynu dadlau yn erbyn gordaliad, byddwn yn parhau i gymryd camau i adennill y gordaliad wrth i ni ystyried eich anghydfod.

Os ydych yn cael trafferth i ad-dalu gordaliad, gallwch ofyn i ni ailystyried y taliadau rydym wedi gofyn i chi eu gwneud. Mae ein taflen COP26, 'Beth sy'n digwydd os ydym wedi talu gormod o gredydau treth i chi', yn esbonio hyn ymhellach, ac yn rhoi gwybod i chi sut i ddadlau yn erbyn adennill gordaliadau, gan gynnwys y terfynau amser.


 I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am 'COP26 leaflet' neu ffoniwch ein llinell gymorth.

Yr hyn sy'n digwydd nesaf

Os byddwch yn gofyn i ni adolygu ein penderfyniad, byddwn yn bwrw golwg dros y penderfyniad eto ac yn anfon Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol atoch. Bydd yr hysbysiad hwn yn egluro'r canlynol:

- y gyfraith a'r ffeithiau rydym wedi'u defnyddio i wneud ein penderfyniad
- unrhyw newidiadau rydym wedi'u gwneud
- sut i apelio ar driwlynlys annibynnol, os ydych yn dal i anghytuno â'n penderfyniad

Os ydych yn apelio'n uniongyrchol ar driwlynlys annibynnol, mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn pen mis o ddyddiad eich hysbysiad o benderfyniad, neu o ddyddiad eich Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol os gwnaethoch ofyn i ni edrych ar ein penderfyniad eto. Yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, gallwch apelio'n uniongyrchol ar Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF heb ailystyriaeth orfodol. Yng Ngogledd Iwerddon, efallai y gallwch apelio'n uniongyrchol ar The Appeals Service Northern Ireland heb ailystyriaeth orfodol.

 Mae Credyd Cynhwysol (UC) wedi disodli credydau treth. Os byddwch yn gwneud hawliad am Gredyd Cynhwysol a bod eich ailystyriaeth orfodol neu'ch apêl yn llwyddiannus, byddwn ond yn gallu talu credydau treth i chi hyd at y diwrnod cyn i chi wneud eich hawliad am Gredyd Cynhwysol. Os byddwch yn gwneud hawliad am Gredyd Cynhwysol bydd eich credydau treth yn dod i ben, hyd yn oed os nad oes gennych hawl i Gredyd Cynhwysol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

 www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service.cy

 www.nidirect.gov.uk/articles/appeal-benefits-decision

Os ydym wedi gwneud camgymeriad

Mewn rhai achosion, gallwn newid penderfyniad anghywir hyd at 5 mlynedd yn ddiweddarach, ond dim ond pan fo pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- gwnaethom gamgymeriad
- ni wnaethoch gyfrannu at y camgymeriad hwnnw
- byddai'r penderfyniad newydd o'ch plaid

Gelwir hyn yn 'gwall swyddogol'.

Manylion cyswllt

Am ymholiadau cyffredinol, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900

Gall pobl â nam ar eu dyw neu leferydd gysylltu â ni drwy ddefnyddio'r Next Generation Text (NGT) Relay drwy ddeialu 18001 ac yna 0345 300 3900

 I weld ein horiau agor, ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/contact/welsh-language-helplines

Sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

 I gael rhagor o fanylion ynghylch sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am 'HMRC Privacy Notice'.



Peidiwch â llenwi'r ffurflen hon os hoffech ddadlau yn erbyn ein penderfyniad sy'n gofyn i chi ad-dalu gordaliad. Cofiwch, mae'n rhaid i chi gynnwys tystiolaeth i ategu'ch cais am ailystyriaeth. Os na wnewch hynny, efallai na fydd ein penderfyniad yn newid.

Amdanoch chi

1 Enw llawn

Teitl - nodwch Mr, Mrs, Miss, Ms neu deitl

Enw

Enw olaf neu enw teuluol

2 Cyfeiriad

Cod post

3 Rhif ffôn yn ystod y dydd gan gynnwys y cod deialu

Rhowch wybod pryd y byddai'n gyfleus i ni eich ffonio (rhwng 08:30 - 17:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener).

Diwrnod

Amser

4 Dyddiad geni DD MM BBBB

5 Eich rhif Yswiriant Gwladol

Ynglŷn â'ch ailystyriaeth

6 A oes gennych gynrychiolydd sy'n eich helpu gyda'r cais hwn, megis perthynas neu Gyngor ar Bopeth?

Na Os 'Nac ydw', ewch i gwestiwn 7

lawn Os 'Ydw', atebwch y cwestiynau canlynol

Ei enw llawn

Enw cyntaf

Enw olaf neu enw teuluol

Ynglŷn â'r ailystyriaeth o'ch penderfyniad parhad

Ei gyfeiriad

Cod post

Llofnodwch yma i awdurdod i'r person hwn i weithredu ar eich rhan

A hoffech i ni anfon pob gohebiaeth at eich cynrychiolydd?

Na lawn

Mae'r awdurdod hwn dim ond yn ddilys ar gyfer y cais hwn.

7 Beth yw dyddiad y penderfyniad yr ydych am i ni ei ailystyried?

Dyma'r dyddiad sydd ar yr hysbysiad o benderfyniad y gwnaethom ei anfon atoch.

8 Pa flwyddyn dreth y mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â hi?

9 A ydych chi neu'ch partner, os oes gennych un, hefyd wedi gofyn i ni ailystyried penderfyniad ynghylch Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad?

Rydym yn defnyddio 'partner', wrth gyfeirio at berson yr ydych:

- yn briod ag ef
- mewn partneriaeth sifil ag ef
- yn byw gydag ef fel petaech yn briod neu mewn partneriaeth sifil

Na

lawn Os 'Ydw', beth oedd y dyddiad pan wnaethoch chi, neu'ch partner, ofyn am ailystyriaeth ynghylch Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad?

10 A ydych yn anfon y ffurflen hon fwy na 30 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad?

Na Os 'Na', llenwch flwch 2 ar dudalen 4

lawn Os 'lawn', llenwch flychau 1 a 2 ar dudalen 4

Gwneud cais am ailystyriaeth orfodol

Defnyddiwch y lle gwag isod i roi gwybod i ni pam yr ydych yn anghytuno â'r penderfyniad.

Cofiwch:

- i roi gwybod i ni pam yr ydych o'r farn bod y penderfyniad yn anghywir - os ydych yn credu bod yr wybodaeth sydd gennym yn anghywir, rhowch wybod i ni beth y credwch yw'r wybodaeth gywir
- os ydych yn gofyn i ni fwrw golwg arall dros fwy nag un penderfyniad, rhowch ddyddiad pob un ohonynt i ni, ynghyd â'ch rhesymau dros anghytuno â phob un
- os ydych yn gwneud cais am ailystyriaeth fwy na 30 diwrnod o ddyddiad ein penderfyniad, rhowch wybod pam y mae'ch cais wedi'i oedi
- os oes angen rhagor o le arnoch, defnyddiwch ddalen arall o bapur - rhowch eich enw a'ch rhif Yswiriant Gwladol arni, ac ysgrifennwch 'Ailystyriaeth/Reconsideration' ar y brig
- mae'n rhaid i chi gynnwys tystiolaeth i ategu'ch cais am ailystyriaeth - os na wnewch hynny, mae'n bosibl na fydd ein penderfyniad yn newid
- os gwnaethoch anfon tystiolaeth ar gyfer y penderfyniad gwreiddiol, does dim angen i chi ei hanfon eto

1 Pam mae fy nghais fwy na 30 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o benderfyniad yr wyf yn anghytuno ag ef

2 Pam nad wyf yn cytuno â'r penderfyniad

Datganiad

Rwyf yn datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.

Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i chi.


Amgaeaf fy nhystiolaeth

Amgaeaf y rheswm dros wneud y cais hwn yn hwyr

Llofnod

Os oes rhywun wedi ei benodi'n swyddogol i weithredu ar eich rhan (penodai), dylai lofnodi yn y blwch isod ar eich rhan.

Os ydych am i rywun weithredu ar eich rhan (cynrychiolydd neu gyfryngwr) ar gyfer eich materion credydau treth, eich Lwfans Gwarcheidwad a/neu'ch Budd-dal Pant, bydd yn rhaid i chi wneud y naill neu'r llall o'r canlynol:

 mynd i www.gov.uk i lenwi ffurflen TC689 'Credydau Treth a Budd-dal Plant: caniatáu i rywun arall weithredu ar eich rhan' a'i dychwelyd'

- gofyn am TC689 drwy ysgrifennu atom yn y cyfeiriad ar dudalen 1

Dyddiad DD MM BBBB

Yr hyn i'w wneud nawr

Sicrhewch eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau y mae angen i chi eu hateb ar y ffurflen hon a'ch bod wedi ei llofnodi.

Datgysylltwch y 'Ffurflen ailystyriaeth orfodol' ar ôl ei llenwi, a'i hanfon i'r cyfeiriad canlynol (does dim rhaid i chi gynnwys enw stryd na rhif Blwch Swyddfa'r Post):

Swyddfa Credydau Treth
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CTheF
HMRC
BX9 1ST

Cofiwch - mae'n rhaid i'ch cais am ailystyriaeth ein cyrraedd cyn pen 30 diwrnod o ddyddiad ein hysbysiad o benderfyniad.

At ddefnydd CTheF

Dyddiad DD MM BBBB